# MAE DY LAIS YN BWYSIG!

Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid Powys

Powys

## Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Ein hymrwymiad i ti ..... 2
Beth yw pwrpas y strategaeth? ..... 4
Ar gyfer pwy y mae'r strategaeth? ..... 4
Beth yw ystyr cyfranogiad ac ymgysylltu? ..... 4
Sut ydyn ni'n ei wneud hyn ar hyn o bryd? ..... 5
Beth fyddwn ni'n ei wneud yn wahanol? ..... 6
Sut mae hyn i gyd yn cyd-fynd? ..... 7
  Lleol ..... 7
  Yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ..... 7
Pwy yw Pwy? ..... 9
Sut wyt ti'n gallu cymryd rhan? ..... 10
Sut fyddi di'n gwybod dy fod yn cael effaith? ..... 10
Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth? ..... 10
Rheoli'r Ddogfen ..... 11

DRAFT

## Ein hymrwymiad i ti

Ry'n ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob person ifanc ym Mhowys yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u grymuso i ddweud eu dweud dros yr hyn y maen nhw'n credu ynddo. Ry'n ni'n credu mewn cydweithio i adeiladu cymuned lle gall pobl ifanc ffynnu, ac ry'n ni yma i dy gefnogi bob cam o'r ffordd.

**Gan Arweinydd y Cyngor:** "Gadewch imi fod yn glir iawn, fel Arweinydd Cyngor Sir Powys, mae llais ein pobl ifanc o'r pwys mwyaf er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n sir.

"Mae cynaliadwyedd yn golygu na fydd y penderfyniadau a wnawn heddiw i ddiwallu ein hanghenion yn rhwystro gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Felly, ar ran fy nghyd-gynghorwyr, rwy'n addo, fel ceidwaid y dyfodol y sir wych hon, fod eich llais yn bwysig iawn.

"Bydd y dewisiadau a wnawn heddiw yn llywio eich yfory, felly rydym wedi ymrwymo i wrando ar eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol ac i'ch cynnwys mewn penderfyniadau am eich addysg, eich cymuned, a'ch llesiant.

“Rydym am glywed eich syniadau a gweithredu ar eich pryderon. Fy marn i yw, pan fydd pobl ifanc yn rhannu eu safbwyntiau ac yn defnyddio eu creadigrwydd i helpu i wneud penderfyniadau, ein bod ni gyda’n gilydd yn gryfach, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”

**Gan y Prif Weithredwr:** “Rwyf am i bob person ifanc ym Mhowys wybod bod yr hyn ry’ch chi’n ei feddwl yn bwysig iawn. P'un a ydych yn byw mewn tref neu allan yng nghefn gwlad, mae eich syniadau a'ch breuddwydion yn hynod bwysig ar gyfer gwella Powys. Rydym yn addo gwrando arnoch a'ch cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd.

“Rydym yn gwybod bod byw ym Mhowys yn arbennig ac y gall fod yn berson ifanc yma gynnig ei hwyl a’i heriau ei hun. Dyna pam ein bod ni eisiau ei gwneud hi'n hawdd i chi rannu eich meddyliau a'n helpu ni i wella Powys i bawb.

“Bydd eich syniadau yn ein helpu i adeiladu cymuned gryfach, fwy cyfeillgar lle mae pob person ifanc yn teimlo'n bwysig ac yn cael cefnogaeth. Diolch am fod yn rhan o'r daith hon. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth mawr!”

**Gan Poppy, 15 oed:** “Mae Powys yn adnabyddus am fod y sir fwyaf gwledig yng Nghymru ac er bod hon yn rhinwedd rhagorol i ffermwyr ac efallai hyd yn oed y rhai sydd am ymddeol yng nghefn gwlad heddychlon. Nid dyma'r mwyaf delfrydol i ieuenctid Powys.

“Er bod trefi clyd a diddorol Powys yn creu ymdeimlad o gymuned sy'n gysurus ac yn berffaith i blant ifanc, wrth i ti fynd yn hŷn rwyt ti’n dechrau cydnabod bod diffyg cyfleoedd.

“Er ei bod yn bwysig cadw pobl ym Mhowys i gynyddu ein poblogaeth a gwneud bywyd yn fwy pleserus i'w phreswylwyr, mae hefyd yr un mor bwysig blaenoriaethu ei phobl ifanc a'u dyfodol. Yn y pen draw, mewn 20 mlynedd, byddai’n hyfryd pe byddem ni’n dal i fyw yma. Fodd bynnag, os yw’r ieuenctid yn anhapus nawr ac yn symud i ffwrdd am fwy o gyfleoedd, ni allwch chi ddisgwyl i ni ddychwelyd i gynnal y boblogaeth.

*"Os nad yw'r cyngor yn ymgysylltu â phobl ifanc Powys nawr, yna ni fydd gennym y cyfathrebu angenrheidiol i chi ddeall beth sydd ei angen arnom er mwyn i ni gael cymuned gryfach."*
Poppy, 15 oed

“Er mai dyma'r brif broblemau ar hyn o bryd, os byddwch yn parhau i wrando ar bobl ifanc ym Mhowys, gallwch barhau i wneud ein bywydau'n fwy cyfforddus a gwneud y syniad o aros ym Mhowys yn fwy deniadol i ieuenctid heddiw.”

DRAFT

## Beth yw pwrpas y strategaeth?

Ry'n ni am greu mwy o gyfleoedd i ti ddweud dy ddweud, cael gwrandawiad a helpu i lunio dyfodol ein cymunedau. Nid dim ond gofyn beth yw dy farn sy'n bwysig – ond dy gynnwys o'r cam cyntaf.  Mae hynny'n golygu cydweithio â ni i gynllunio, dylunio a gwella'r pethau sy'n bwysig i ti.

> *"Ry'n ni am ddewis ein dyfodol ac nid iddo gael ei ddewis drosom ni! Ry'n ni eisiau cael ein clywed, nid ein hanwybyddu."*
> Imogen, 11 oed

Ein nodau:

- **Ry'n ni am i ti deimlo dy fod ti'n cael dy glywed**
- **Byddwn yn onest ac yn agored gyda thi**
- **Byddwn yn ei gwneud yn haws i ti gymryd rhan**
- **Byddwn yn gweithredu ar beth rwyt ti'n ei ddweud wrthym**
- **Byddwn yn dy gefnogi i dyfu ac arwain**
- **Byddwn yn parhau i wella sut ry'n ni'n gweithio gyda thi**

## Ar gyfer pwy y mae'r strategaeth?

Os wyt ti o dan 25 oed a naill ai'n byw, yn astudio neu'n gweithio ym Mhowys, mae hyn ar dy gyfer di.

Mae hefyd ar gyfer yr oedolion sy'n dy gefnogi - athrawon, gweithwyr ieuenctid, staff y cyngor a chynghorwyr - fel y gallan nhw dy helpu i ddweud dy ddweud a chael dy gymryd

## Beth yw ystyr cyfranogiad ac ymgysylltu?

Mae cyfranogiad yn golygu cael dweud dy ddweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnat ti. Mae'n ymwneud â chymryd rhan, rhannu dy farn, a helpu i lunio beth sy'n digwydd yn dy ysgol, cymuned neu wasanaethau lleol. Gall fod mor syml â rhoi adborth mewn arolwg neu eistedd ar gyngor ieuenctid neu helpu i gynllunio prosiect newydd.

Ymgysylltu yw'r ffordd ry'n ni'n sicrhau bod cyfranogiad yn digwydd. Mae'n ymwneud â chreu mannau lle rwyt ti'n teimlo rwyt ti'n cael dy groesawu, parchu a gyda'r hyder i ddweud dy ddweud. Mae ymgysylltiad da yn golygu gwrando arnat ti, gweithredu ar beth rwyt ti'n ei ddweud, a sicrhau dy fod yn gwybod bod dy lais di wedi gwneud gwahaniaeth.

DRAFT

## Sut ydyn ni'n ei wneud hyn ar hyn o bryd?

Yn y cyngor mae ychydig o ffyrdd ry'n ni'n eu defnyddio i wrando ar leisiau pobl ifanc o bob rhan o'r sir:

**Llais y Disgybl:** Mae Llais y Disgybl yn ymdrin â'r holl ffyrdd sydd gen ti yn yr ysgol i roi dy farn ar bynciau pwysig fel yn dy ddosbarthiadau, trwy ymuno â phwyllgor ysgol, neu drwy wasanaeth dosbarth neu ysgol gyfan.

**Cynghorau Ysgol:** Dylai fod gan bob un o'n hysgolion uwchradd ym Mhowys gyngor myfyrwyr sy'n cwrdd i sicrhau bod lleisiau eu cyd-fyfyrwyr yn cael eu clywed gan y llywodraethwyr a'r pennaeth

> *"Mae bod yn rhan o'r Bwrdd Dechrau Da Iau wedi rhoi'r sgiliau i mi fod yn fwy hyderus wrth roi fy marn. Rwy'n teimlo fy mod i'n gwneud gwahaniaeth go iawn, ac rwy'n teimlo bod fy marn yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'n grŵp cyfforddus a chyfeillgar, gyda rhai o'r bobl fwyaf dymunol y gallech chi eu cyfarfod erioed!"*
> Tomos – Aelod Bwrdd Dechrau Da Iau

**Byrddau Dechrau Da Iau a Dechrau Da Oedolion Ifanc:** Mae'r byrddau'n dod â chynrychiolwyr o wahanol ysgolion, grwpiau cymunedol, a chefndiroedd amrywiol **i** cryfhau systemau cymorth, a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau.

**Gwasanaethau Plant Powys:** Mae gan Wasanaethau Plant Powys Swyddog Cyfranogiad sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau - trwy'r Pwyllgor Strategaeth dan Arweiniad Pobl Ifanc - Grŵp o bobl ifanc yw hwn sy'n cwrdd bob mis i sicrhau bod dy lais yn cael ei glywed a bod y Cyngor yn gwneud ei orau i ti a gweithgareddau eraill gan gynnwys dewis staff newydd y Gwasanaethau Plant trwy fod ar y paneli cyfweld.


**Hyrwyddwyr Pobl Ifanc:** Mae llawer o bobl yn dy gymuned eisiau dy helpu i ddweud dy ddweud a chael dy glywed, yn enwedig pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar dy fywyd. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau a sefydliadau trydydd sector (fel grwpiau ieuenctid, elusennau a gwasanaethau cymorth), yn ogystal â rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

**Oedolion y Gellir Ymddiried ynddyn nhw:** Maen nhw'n gallu bod yn athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid, hyfforddwr chwaraeon, aelod o'r teulu neu ffrind. Rwyt ti'n gallu adnabod oedolyn y gellir ymddiried ynddo drwy ofyn i dy hunan a ydyn nhw'n gwrando heb farnu, yn dod pan maen nhw'n dweud y byddan nhw'n dod, yn parchu dy syniadau, ac yn dy helpu i deimlo'n ddiogel ac yn gryf. Byddan nhw'n gwrando'n gyntaf, yn dy helpu i ddod o hyd i'r geiriau cywir, ac yn dy gefnogi i wneud yn siŵr bod dy syniadau'n cael eu cymryd o ddifrif.

**Rhieni Corfforaethol:** y cyngor a'i staff yn cymryd cyfrifoldeb arbennig dros ein plant sy'n derbyn gofal yn y sir. Ein nod yw dy gefnogi i gyflawni dy ddyheadau, i gyrraedd dy botensial llawn a chynnal cysylltiadau. Ein nod yw dy gadw mor agos â phosibl at dy gymunedau a darparu addysg, gofal iechyd, llety a chefnogaeth o safon uchel ar gyfer dy les emosiynol.

DRAFT

Isod mae diagram sy'n dangos sut mae'r holl ffyrdd ry'n ni wedi'u trafod hyd yma yn yr adran hon yn cyd-fynd â'i gilydd:




DRAFT

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn wahanol?

Mae pob amser lle i wella a mae pobl ifanc ledled y sir wedi dweud wrthym am rai o'r ffyrdd y gallem wella yn cynnwys:

- Creu mwy o ffyrdd i ti ddweud dy ddweud a chael dy glywed - drwy dy ysgol, yn dy gymuned, ar-lein, ac mewn digwyddiadau arbennig i bobl ifanc ym Mhowys.
- Dy gefnogi i fagu hyder i ddweud dy ddweud, a herio barn a stereoteipiau a dangos beth rydych chi'n gallu ei wneud. Efallai mai ti fydd ein cynghorydd sir yn y dyfodol.

*"Mae angen i ni gael ein gweld a'n clywed oherwydd mai ni yw'r dyfodol. Ry'n ni'n annibynnol, gadewch i ni feddwl drosom ein hunain."*
*Charlotte, 11 oed*

## Sut mae hyn i gyd yn cyd-fynd?

Mae'r cynllun hwn yn gysylltiedig â'r hawliau pwysig sydd gen ti eisoes. Mae'n bwysig dy fod yn gwybod ble mae hyn i gyd yn cyd-fynd â pholisïau a rheolau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

### Lleol

**Cyngor Sir Powys:** Yma yn y cyngor, mae gennym lawer o reolau, cynlluniau a strategaethau ry'n ni'n eu defnyddio i sicrhau bod popeth ry'n ni'n ei wneud er lles pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio ym Mhowys:

- Cyfansoddiad y Cyngor - Egwyddorion y Cyngor
- Ein Cynllun Corfforaethol
- Powys Gynaliadwy
- Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus
- Addewid i Blant - Cyngor Sir Powys

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (BPRh):** yn grŵp sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cyngor lleol, y bwrdd iechyd, y sector gwirfoddol, a chyfranwyr pwysig eraill yn y gymuned, gan gynnwys preswylwyr Powys. Mae'r BPRh yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yn cydweithio i wella iechyd a lles ym Mhowys a nodir eu blaenoriaethau yng Nghynllun Ardal Powys – Powys Iach, Ofalgar.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys:** Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal yng Nghymru. Crëodd y BGC gynllun llesiant lleol i wella llesiant yr ardal drwy annog gwaith tîm ymhlith yr holl wasanaethau cyhoeddus lleol a chenedlaethol

### Yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Ledled Cymru, mae llawer o bobl, sefydliadau a pholisïau yn gweithio i sicrhau dy fod yn gallu dweud dy ddweud ar y penderfyniadau sy'n llywio dy fywyd a dy ddyfodol.

**Comisiynydd Plant Cymru**: yn gweithio i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Fframwaith Nyth/Nest**: yn ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cymorth cywir ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u llesiant, waeth ble y maen nhw neu bryd y mae ei angen.

DRAFT

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**: yn hyrwyddwr ar gyfer pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol. Eu gwaith yw sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw yn helpu i greu Cymru well, tecach a gwyrddach ar gyfer yfory.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** yn golygu gwneud Cymru'n lle gwell i fyw ynddo. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

**Senedd Ieuenctid Cymru:** yn cynnwys 60 o Aelodau 11–17 oed, gyda 40 ohonynt wedi eu hethol drwy bleidlais genedlaethol ac 20 wedi'u dewis gan sefydliadau partner i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol.

**CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: yn dwyn ynghyd gynghorau lleol, yr heddlu, byrddau iechyd a gwasanaethau eraill i amddiffyn plant a phobl ifanc. Eu nod yw gwella bywydau a sicrhau diogelwch ar draws cymunedau amrywiol trwy gydweithio ac adolygu eu hymdrechion yn rheolaidd.

**Plant yng Nghymru**: yn sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi pobl sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru. Maen nhw'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod hawliau plant yn rhan o benderfyniadau pwysig.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011:** yn helpu i sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru - fel cynghorau, ysgolion a gwasanaethau iechyd - yn trin pawb yn deg ac yn gyfartal.

**Safonau'r Gymraeg (2016):** yn rheolau sy'n sicrhau y gall pobl yng Nghymru defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, fel cynghorau neu wasanaethau iechyd. Mae'r rheolau hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Gymraeg gael ei thrin yr un mor deg â'r Saesneg.

**Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru**: Set o 10 canllaw sy'n helpu sefydliadau i gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei wneud yn dda ac mewn ffordd gyson.

DRAFT

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):** Mae'r CCUHP yn gytundeb pwysig rhwng gwledydd sy'n dweud bod gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed hawliau - fel yr hawl i rannu ei farn a chael ei gymryd o ddifrif pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

## Pwy yw Pwy?

Mae'n bwysig dy fod yn gwybod gyda phwy rwyt ti'n gallu siarad am bynciau lleol sy'n bwysig i ti. Ry'n ni wedi cynnwys rhestr isod o bobl sy'n gysylltiedig â'r cyngor ac sydd yno i wrando ar dy syniadau neu bryderon.

**Staff Cyngor Sir Powys:** Dyma'r bobl sy'n gweithio i'r cyngor ac yn helpu i ddarparu gwasanaethau lleol fel ysgolion, ffyrdd, ailgylchu, tai a gofal cymdeithasol. Maen nhw'n gweithio y tu ôl i'r llenni ac yn y gymuned i sicrhau bod pethau'n rhedeg yn rhwydd i breswylwyr lleol.

**Cynghorwyr Sir Powys**: Cynrychiolwyr etholedig yw'r rhain sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r cyngor yn cael ei redeg a sut mae arian yn cael ei wario ym Mhowys. Mae gennym 68 o Gynghorwyr Sir ledled Powys, ac fe alli di ddod o hyd i fanylion dy Gynghorydd Sir lleol ar ein gwefan.

**Cynghorwyr Tref a Chymuned:** yn gweithio ar lefel fwy lleol. Maen nhw'n canolbwyntio ar bethau fel parciau, digwyddiadau lleol, a phrosiectau cymunedol bach. Mae gennym 110 o gynghorau tref a chymuned ledled y sir ac fe alli di ddod o hyd i restr ohonyn nhw ar ein wefan.

**Aelodau'r Senedd (AS):** yn cael eu hethol i gynrychioli pobl yng Nghymru yn y Senedd (Senedd Cymru). Maen nhw'n gwneud deddfau a phenderfyniadau am bethau fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth yng Nghymru. Mae dwy brif etholaeth yn y Senedd ar hyn o bryd ym Mhowys: un yn Sir Drefaldwyn (Newid i Wynedd Maldwyn yn Etholiad y Senedd yn 2026) and un yn Brycheiniog a Maesyfed (Newid i Brycheiniog Tawe Nedd yn Etholiad y Senedd yn 2026)

**Aelodau Seneddol:** Mae Aelodau Seneddol yn cael eu hethol i gynrychioli pobl yn Senedd y DU yn Llundain. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio ar y DU gyfan, fel amddiffyn, mewnfudo a budd-daliadau. Cynrychiolir Powys yn Senedd y DU gan ddau Aelod Seneddol, pob un yn cwmpasu un o'r ddwy etholaeth seneddol yn y sir: un yn Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe ac un yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

DRAFT

## Sut wyt ti’n gallu cymryd rhan?

Ry’n ni’n deall bod pawb yn wahanol, a dyna pam y byddwn yn defnyddio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â thi yn dibynnu ar y pwnc a'r amseriad, byddwn yn ceisio dewis y dull gorau sy'n addas i'r sefyllfa.

> *"Mae angen i ni gael ein clywed oherwydd ein bod ni'n blant, a ni yw'r dyfodol. Unwaith yr wythnos neu rywbeth, gallai rywun ddod i mewn a gallwn ofyn cwestiynau." Ffion, 11 oed*

Ry’n ni am wybod y ffyrdd gorau i gysylltu â thi fel y gallwn ddiwallu dy anghenion a sicrhau bod dy lais yn cael ei glywed. Byddwn yn creu pecyn cymorth ar gyfer ein staff a'n cynghorwyr yn esbonio'r gwahanol ffyrdd yr hoffet i ni gysylltu â thi, a pha ddulliau sy'n gweithio orau ar gyfer pynciau amrywiol.

Os wyt ti’n sylwi ar unrhyw beth o'i le ar wasanaeth a ddarparwn neu os oes gennyt awgrym ynghylch sut y gallem wella gwasanaeth, galli di gysylltu â ni ar ein gwefan: Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion - Cyngor Sir Powys.

## Sut fyddi di’n gwybod dy fod yn cael effaith?

Byddi di’n gweld pethau'n newid oherwydd yr hyn rwyt ti wedi'i ddweud. Byddwn yn rhannu diweddariadau ar yr hyn sydd wedi digwydd a'r hyn sydd wedi gwella diolch i dy fewnbwn. A byddwn yn parhau i ddod nol atat - gan ofyn beth sy'n gweithio, beth sydd ddim, a sut gallwn ni wneud yn well.

Os wyt ti’n meddwl nad yw eich lleisiau'n cael eu clywed na'u gweithredu, mae angen i ti roi gwybod i ni. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw e-bostio ein Bwrdd Dechrau'n Dda Iau ar jswb@powys.gov.uk neu drwy eu ffurflen adborth: https://forms.office.com/e/XDMQW5AdCw

DRAFT

## Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ein gair a bod popeth ry’n ni wedi'i restru yn y ddogfen hon yn gweithio'n dda, mae angen ffordd o wirio sut ry’n ni’n gwneud.
Byddwn yn mesur y pethau canlynol:

- **Cyfraddau Ymgysylltu**: Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn prosesau penderfynu, digwyddiadau ac ymgyngoriadau.
- **Gweithredu ar Adborth**: Nifer y camau a gymerwyd yn dilyn adborth gan bobl ifanc.
- **Lefelau Boddhad**: Lefelau boddhad pobl ifanc â'r prosesau ymgysylltu.

Byddwn yn cynhyrchu'r deunyddiau canlynol:

- **Diweddariadau Rheolaidd:** ar gynnydd ac effaith cyfraniadau drwy rannu canfyddiadau, camau a gymerir, a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- **Astudiaethau Achos**: Dathlu llwyddiannau a chyfraniadau pobl ifanc.
- **Adroddiad Blynyddol**: adolygu'r cyflawniadau, yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd o'r gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc.

## Rheoli'r Ddogfen

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | Mae dy lais yn bwysig! |
| **Math o ddogfen** | Strategaeth |
| **Perchennog:** | Gweithgor Ymgysylltu Ieuenctid<br>yourvoicematters@powys.gov.uk |
| **Ymgynghoriad:** | Cam Un Ymgynghoriad Cyhoeddus: Mai – Gorffennaf 2025<br>Craffu: January 2026<br>Cam Dau Ymgynghoriad Cyhoeddus: Mehefin - Gorffennaf 2026 |
| **Proses cymeradwyo / corff cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau a Chabinet Cyngor Sir Powys |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Awst/Medi 2026 TBC |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | Hydref 2026 TBC |
| **Trefniadau adolygu:** | Bydd y strategaeth hon yn destun adolygiad pob 5 flwyddyn. Cynhelir ymarfer ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth fel rhan o bob adolygiad.<br>Er mwyn cadw'r strategaeth yn berthnasol ac yn gyfredol, caiff unrhyw fân newidiadau angenrheidiol eu gwneud a'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Addysg. |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2030 |

DRAFT